

**Cofnodion cyfarfod rhif 82
Pwyllgor Cyngori Cymru
a gynhaliwyd drwy Teams ar 22 Medi 2021**

Yn bresennol

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Peter Trott	Aelod
Robert Andrews	Aelod
Andrew Board	Aelod (ymunodd yn eitem 5)
Ruth McElroy	Aelod
Rem Noormohamed	Aelod (ymunodd yn eitem 5)

Hefyd yn bresennol

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom
Aled Eirug	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Sian Phipps	Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru
Elinor Williams	Pennaeth, Materion Rheoleiddiol, Cymru
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

Ymddiheuriadau

Eitemau ar yr Agenda	Gweith redu
Cyflwyniad 1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 82 Pwyllgor Cyngori Cymru. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau ond roedd AB wedi nodi y byddai'n ymuno â'r cyfarfod ychydig yn hwyrach na'r amser dechrau.	
Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar 2. Dywedodd RM ei bod wedi derbyn gwahoddiad gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ymuno â'r grŵp sy'n gwerthuso Festival 2022.	
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 a materion yn codi – Cofnodion PCC 81 3. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2021 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. CYMERADWYFYD y cofnodion yn gofnodi cywir o'r cyfarfod heb unrhyw sylwadau na diwygiadau. Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni - <ul style="list-style-type: none">• Calon FM: Crybwyllwyd bod y broses trosglwyddo trwyddedau ar gyfer yr orsaf radio cymunedol bellach wedi'i chwblhau a bod y drwydded bellach yn eiddo i	

<p>Wrexham Broadcasting Ltd. Cadarnhawyd hefyd fod Wrexham Broadcasting Ltd yn rhan o gais am drwydded DAB ar raddfa fach ar gyfer Gogledd Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghoriad ar bwysy'n berchen ar Channel 4: Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau ac i gydweithwyr o Ofcom Cymru am eu cyfraniadau at gyflwyniad y pwyllgor. Cytunwyd y dylid ystyried yr angen i gyflwyno ymatebion i ymgynghoriadau yn y dyfodol yn Gymraeg gan ddibynnu ar natur y maes pwnc yr ymgynghorir yn ei gylch. • Ymgynghori ynghylch ardaloedd anodd eu cyrraedd: Diolchodd y Cadeirydd i PT am ei arbenigedd a'i arweiniad wrth lunio cyflwyniad y pwyllgor. 	
<p>Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar</p> <p>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y broses o recriwtio aelodau newydd i Bwyllgor Ymgynghorol Cymru bron â chael ei chwblhau a'r gobaith yw y bydd yr aelodau newydd yn ymuno â'r cyfarfod ym mis Tachwedd. • Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru (WCRN) – cyfarfod â phennaeth y sefydliad, yr adroddir ei fod mewn cyflwr da. • Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) - wedi rhoi cipolwg ar y ffordd y mae Channel 4 yn cydweithio â'r sector annibynnol yng Nghymru. • Hyb Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru – bydd yn mynychu cyfarfod yr Hyb ar 6^{ed} Hydref • Partneriaeth Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru (WISP) – wedi mynychu cyfarfod o WISP <p>Cadw Tŷ – Cytunwyd y byddai ymwadiad yn cael ei gynnwys yn nogfennau Pwyllgor Cynghori Cymru yn y dyfodol, i egluro rôl a natur Pwyllgor Cynghori Cymru.</p> <p>Gofynnodd un aelod am ddiweddariad ar yr ymchwil ar ddadansoddi cynnwys newyddion rhwydwaith, a chytunwyd i ofyn i'r Athro Stephen Cushion ddod i'r cyfarfod ym mis Tachwedd i drafod y canfyddiadau.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau yr oedd eu tymhorau ar y pwyllgor wedi dod i ben. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy sôn y byddai'n hoffi cyfarfod yn bersonol yn y swyddfa ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd ac ystyried y posibilrwydd o drefnu i aelodau'r pwyllgor a thîm Ofcom Cymru ddod at ei gilydd cyn y Nadolig.</p>	EW
<p>Cynllun Gwaith Drafft 2022-23 a Chynllunio Strategol</p> <p>5. Amlinellodd cydweithwyr fod y tîm yn y camau cynnar o lunio'r Cynllun Gwaith drafft ar gyfer ei gyhoeddi cyn y Nadolig ond y bydd y ddogfen yn dilyn yr un strwythur yn fras â 2021-22. Rhagwelir y bydd y digwyddiad Cynllun Gwaith yn cael ei gynnal gan dîm Ofcom Cymru unwaith eto y flwyddyn nesaf, yn yr un modd â swyddfeydd y gwledydd eraill. Y nod yw cyhoeddi datganiad terfynol ar Gynllun Gwaith Ofcom ddiwedd mis Mawrth 2022.</p> <p>Wrth drafod strategaeth tymor hir Ofcom, soniodd cydweithwyr polisi mai cenhadaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb a bod y ffocws ar sicrhau bod Ofcom yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r genhadaeth honno.</p>	

O ran sefydlu partneriaethau newydd, roedd un aelod wedi annog y tîm i ddysgu o brofiadau partneriaethau a sefydlwyd mewn gwledydd eraill. Tynnodd yr aelod sylw hefyd at ailrwyddedu Channel 3 a 5 fel darnau allweddol o waith sydd ar y gweill.

Gofynnodd un aelod a ystyriwyd ai'r Bwrdd Cynnwys oedd y fforwm priodol ar gyfer rheoleiddio darlledu a diogelwch ar-lein. Nododd aelodau'r tîm y sylw, a dweud y byddai hyn yn cael ei godi gyda'r cydweithwyr perthnasol.

Dywedodd un aelod fod fforddiadwyedd yn dal i fod yn berthnasol yng ngoleuni'r gostyngiad mewn credyd cynhwysol a'r cynnydd mewn prisiau ynni. Hefyd, tynnodd yr un aelod sylw at yr angen i gynnwys pa mor berthnasol yw Mynediad Di-wifr Sefydlog fel ffordd hyfyw o gysylltu rhai o'r ardaloedd anoddaf eu cyrraedd. Tynnwyd sylw hefyd at roi'r gorau i ddefnyddio copr a diffodd 2G a 3G fel rhywbeth pwysig i randdeiliaid yng Nghymru ac y dylai safbwynt Ofcom ar y ddau beth gael ei egluro yn y ddogfen.

Cyfeiriodd un aelod at newid yn yr hinsawdd a pherthnasedd ac effaith hynny ar y tirlun darlledu, gan nodi bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau sero net gyda ffocws ar 2030 ac wedi holi am safbwynt Ofcom ar hyn. Dywedodd cydweithwyr y byddai hyn yn cael ei ystyried a'i adlewyrchu fel sy'n briodol yn y ddogfen Cynllun Gwaith.

Y Diweddaraf: Aelod Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom

6. Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu papur diweddarau. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Y rhaglen diogelwch ar-lein a llwyfannau rhannu fideos - ysgrifennodd Melanie Dawes at gadeirydd y pwyllgor Seneddol sy'n craffu ar y ddeddfwriaeth diogelwch ar-lein newydd, i roi barn Ofcom am y ddeddfwriaeth.
- Mae ymchwiliadau nodedig a gwblhawyd yn ystod y ddau fis diwethaf wedi cynnwys cwyn Piers Morgan (tua 50,000 o gwynion wedi dod i law). Penderfynwyd nad oedd yn torri'r Cod Darlledu o ystyried yr her sylweddol i sylwadau Piers Morgan a ddarparwyd gan gyflwynwyr a gwesteion eraill.
- Lanswyd GB News ym mis Mehefin, gydag Andrew Neil yn gadeirydd arno. Mae Ofcom wedi cael nifer cyson o gwynion am nifer o'i raglenni ac mae'n asesu'r rheini.
- Hysbysebion bwyd a diod uchel mewn braster, halen neu siwgr - Ar gyfer gwasanaethau teledu a rhaglenni ar-alw o dan awdurdodaeth y DU, bydd hysbysebion bwyd a diod uchel mewn braster, halen neu siwgr yn cael eu gwahardd rhwng 5.30pm a 9pm, ac ar gyfer gwasanaethau ar-lein, bydd hysbysebion o'r fath y telir amdanynt yn cael eu gwahardd.
- Bydd adolygiad Ofcom o'r rhyngweithio rhwng y Gwasanaeth Cyhoeddus a BBC Studios yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Hydref 2021.
- Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei bedwerydd Adroddiad Blynyddol ar y BBC ym mis Tachwedd 2021, a fydd yn nodi sut mae Ofcom wedi rheoleiddio'r BBC, er mwyn sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei reoleiddio'n effeithiol; gan ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a gan sicrhau bod safonau cynnwys yn cael eu dilyn.
- Bydd Ofcom yn cyflwyno adroddiad 'adran 229' i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon erbyn mis Mehefin 2022, a fydd yn rhoi barn ynghylch a fydd deiliad presennol trwydded Sianel Tri a Sianel Pump

<p>yn gallu cyfrannu, am gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol, at gyflawni'r dibenion gwasanaeth cyhoeddus dros y deng mlynedd nesaf o fis Ionawr 2025 ymlaen.</p>	
<p>Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu</p> <p>7. Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddarar ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y prif uchafbwyntiau a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn ddiweddar, roedd yr Aelod o'r Panel ar ran Cymru wedi cadeirio cyfarfod o Hyb Rhanddeiliaid Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar wneud gwasanaethau cyfathrebu yn fwy cynhwysol i ddefnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau. • Mae'r Panel yn dal i boeni am yr effeithiau y bydd symud i brotocol llais dros y rhyngwrwyd yn eu cael ar ddefnyddwyr a dinasyddion a microfusnesau, yn enwedig defnyddwyr sydd â gofynion cymorth penodol sy'n dibynnu ar wasanaethau fel defnyddwyr teleofal. • Mae'r Panel wrthi'n cwmpasu prosiectau ymchwil posibl ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae'r posibiladau'n cynnwys rôl mynediad di-wifr sefydlog (FWA) o ran cysylltu'r adeiladau hynny yng Nghymru wledig sy'n parhau â chysylltedd gwael, a rhaglen waith o ran bod yn agored i niwed, ac roedd angen ystyried y diffiniad ar gyfer hyn yn ofalus. <p>Awgrymodd un aelod y byddai'n fuddiol ymgysylltu â Sefydliad Awen ac Age Cymru mewn perthynas â Mudo i brotocol llais dros yn rhyngwrwyd. Ategodd aelod arall yr angen i ddiffinio 'natur agored i niwed yn ofalus', ac a ddylid mewn gwirionedd gynnwys myfyrwyr yn y grŵp hwn o ran eu gallu i fforddio talu am wasanaethau cyfathrebu.</p>	
<p>Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru</p> <p>8. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddarar a rannwyd yn flaenorol ac a oedd yn ymdrin â phynciau a oedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Mae Ofcom wedi cytuno i ddiwygio'r testun mewn ffordd a fydd yn golygu bod Ofcom a Llywodraeth Cymru yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn i rannu blaenoriaethau strategol. • Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Cyfarfu Ofcom â CLILC ochr yn ochr â chydweithwyr o'n tîm Gorfodaeth Defnyddwyr i drafod ein rhaglen waith adolygu Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Teleffoni. • Newyddion Rhwydwaith Ofcom – Sylw i'r gwledydd datganoledig – Mae Prifysgol Caerdydd wedi cael ei phenodi i ymgymryd â'r prosiect, ac mae'r Athro Stephen Cushion a'i dîm wrthi'n dadansoddi darlledu newyddion rhwydwaith teledu yn ystod cyfnod o bedair wythnos ym mis Mehefin. Dylai adroddiad terfynol fod yn barod erbyn mis Tachwedd. • Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg – mae Comisiynydd y Gymraeg wedi lansio ymchwiliad i ddull Ofcom o drwyddedu DAB ar Raddfa Fach (rownd 1) yn ardal Caerdydd a ddyfarnwyd i Cardiff DAB Ltd ym mis Mai eleni. Mae'r Comisiynydd yn credu y gallai Ofcom fod yn torri ei safonau llunio polisi ac efallai nad yw wedi rhoi digon o sylw i anghenion siaradwyr Gymraeg a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu iddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth lunio ein polisi ar drwyddedu DAB ar Raddfa Fach fel yr amlinellir yn ein dogfen ymgynghori. Ein barn ni yw nad oedd angen ystyried goblygiadau dyfarnu'r drwydded i'r Gymraeg o ystyried bod darlledu wedi'i eithrio o gyfundrefn safonau'r Gymraeg. Byddwn yn cyflwyno ein tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg cyn bo hir. 	

<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu'r Gwledydd Cymru 2021 – Cafodd yr aelodau ddiweddariad ar amserlen a chynnwys arfaethedig adroddiad Cysylltu'r Gwledydd ar gyfer Cymru eleni. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir. <p>Gofynnodd un aelod a fyddai modd cael diweddariad ar Deledu Lleol yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd. Cytunwyd y byddai hyn yn syniad da. Gofynnodd yr un aelod am ddiweddariad ar y Bil Cyfryngau ac am ragor o fanylion am ein hymateb arfaethedig i ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Symudodd y Cadeirydd yr ymatebion yn nes ymlaen yn yr agenda gan fod cydweithwyr ar gyfer yr eitem nesaf yn barod i ymuno â'r cyfarfod.</p>	EW
<p>Adroddiad – Polisi Cyhoeddus</p> <p>9. Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus i'w chyfarfod cyntaf o Bwyllgor Ymgynghorol Cymru a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd. Roedd y Cyfarwyddwr eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddarau yn amlinellu datblygiadau allweddol Llywodraeth y DU a'r Senedd ers y cyfarfod diwethaf. Yn ogystal â'r pynciau a grybwyllwyd eisoes, roedd yr uchafbwyntiau ychwanegol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ad-drefnu'r cabinet yn ddiweddar a phenodi Nadine Dorries AS yn Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Roedd portffolios eraill yn dal i gael eu datrys ond disgwyliwyd y byddai Julia Lopez AS yn dod yn Weinidog Gwladol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. • Bil Cyfryngau – Mae Ofcom yn ymgysylltu'n agos â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'n disgwyl y bydd rhai o argymhellion allweddol ein datganiad ar Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn y bil, sef yr argymhellion ar amlygrwydd ac argaeledd. Soniwyd hefyd am ddarpariaethau mewn perthynas â'r strwythur llywodraethu yn S4C. 	
<p>ITV Cymru Wales – diweddariad blynyddol</p> <p>10. Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglennu ac Elin Llyr, Rheolwr Materion Cyhoeddus yn ITV Cymru Wales, i'r cyfarfod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn ei sylwadau agoriadol, croesawodd Phil Henfrey y cyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ynghylch Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. • Byddai ITV yn annog Llywodraeth y DU i dderbyn argymhellion datganiad Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr Ofcom, a oedd yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth newydd i gryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a diweddarau'r rheolau ynghylch argaeledd ac amlygrwydd er mwyn iddynt ymestyn i lwyfannau digidol. • Ychwanegodd fod gwylwyr yn gwerthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol o ansawdd uchel sydd ar gael yn eang ac am ddim fel rhan o'r tirlun cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a bod pobl yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r dewis lluosog y mae ITV Cymru Wales yn ei gynnig, yn enwedig o ran newyddion a materion cyfoes. • Dywedodd fod ITV eisiau bod yn gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ond na fyddai'n gwneud hynny am unrhyw bris: roedd yn rhaid i'r model fod yn gynaliadwy ac yn seiliedig ar faes chwarae gwastad • Dywedodd Elin Llŷr fod ITV Cymru Wales yn rhoi gwerth ychwanegol, a chyfeiriodd at y gwahanol bartneriaethau sydd ganddo, er enghraifft gydag S4C i ddarparu newyddion. Dywedodd fod ITV Cymru Wales wedi ymrwymo i amrywiaeth a 	

<p>chynhwysiant ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, mae ganddo gynllun prentisiaeth sydd wedi ennill gwobrau, ac mae'n rhan o gynllun hyfforddi gyda Skills Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • I ymateb i gwestiynau gan aelodau, dywedodd Phil Henfrey fod yn rhaid i drwydded Sianel 3 newydd fod yn hyfyw yn economaidd, dros gyfnod 10 mlynedd y drwydded. • Er bod amlygrwydd yn bwysig, pwysleisiodd nad oedd yn ymarferol yn fasnachol ar hyn o bryd i gynnwys cynnwys ITV Cymru Wales ar ei lwyfan digidol. • Gallai mwy o ddewis a llai o gyfyngiadau ganiatáu i ITV sicrhau refeniw o hysbysebion. • Dywedodd ITV Cymru Wales ei fod yn monitro ac yn herio ei hun yn gyson i sicrhau bod ei raglen amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer Cymru gyfan. 	
<p>Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC</p> <p>11. Rhoddodd cydweithwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Adroddiad Blynyddol ar y BBC. Roedd y materion allweddol a godwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud â chynulleidfaoedd a'r rhwydwaith yng Nghymru yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lefel boddhad gwylwyr yng Nghymru a sut mae hynny'n cymharu â gwledydd eraill. • Portreadu a chynrychioli Cymru a'i phobl, a sut y gellir mesur hyn; • Pa mor gywir yw newyddion y rhwydwaith; • Comisiynu cynnwys ac effaith lleoli adrannau y tu allan i Lundain; • Gofynion cwota cyfredol ac a oes angen unrhyw newidiadau; ac • Amlygrwydd cynnwys y gwledydd, yn enwedig ar lwyfannau digidol. 	
<p>Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar</p> <p>12. Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd ar ran Cymru ddiweddariad llawn ar lafar a chrynodeb o bynciau allweddol dros y misoedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae swyddfa newydd Ofcom ym Manceinion wedi agor ac mae'r broses recriwtio wedi dechrau ar gyfer staff i gefnogi gwaith Ofcom o ran y Bil Telegyfathrebiadau (Diogeledd) a'r Bil Diogelwch Ar-lein. • Mae'r Aelod wedi cwrdd â Glyn Jones, Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru ac wedi awgrymu ei fod yn cael gwahoddiad i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori yn y dyfodol. • Disgwylir rhagor o ddarnau o ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a fydd â goblygiadau i Ofcom. Mae'r rhain yn cynnwys Bil Cyfryngau a allai arwain at ganlyniadau i'r cyfryngau yng Nghymru. 	
<p>Ymatebion i'r ymgynghoriad - adborth gan aelodau</p> <p>13. Ymatebodd Pwyllgor Cynghori Cymru i'r ymgynghoriadau canlynol:</p> <p>Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Perchnogaeth Channel 4 (Ymateb Pwyllgor Cynghori Cymru wedi'i gyflwyno ar 14 Medi)</p> <p>Cais gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am Dystiolaeth: Gwella'r Cysylltedd ar gyfer Safleoedd Anodd eu Cyrraedd (Ymateb y Pwyllgor wedi'i gyflwyno ar 25 Mehefin)</p> <p>Nododd y pwyllgor yr ymgynghoriadau sydd ar y gweill gan Ofcom, a fydd yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn yr hydref:</p> <p>Ofcom: BBC Studios (amcangyfrifir ei gyhoeddi ar 27 Hydref)</p>	

Ofcom: Sefyllfa BBC Sounds yn y Farchnad (amcangyfrifir ei gyhoeddi ar 27 Hydref)	
<p>14. Mynediad Di-wifr Sefydlog – Clive Downey, ResQNet</p> <p>Cafwyd diweddariad byr gan Clive Downey, Cyfarwyddwr ResQNet, sef cwmni WISP yng ngorllewin Cymru, ar y gwasanaeth band eang cyflym iawn y mae'n ei ddarparu i eiddo ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Chwm Tawe.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cwmni wedi cael cyllid gan gynllun Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad di-wifr sefydlog (FWA) i gymunedau gwledig yn bennaf yng Nghymru na fyddent fel arall yn gallu cael cysylltiad band eang sefydlog teilwng • Mae'r cwmni'n denu ei gwsmeriaid yn bennaf drwy dafod leferydd yn lleol, gan ddatblygu cysylltiadau da gyda'i gwsmeriaid a darparu gwasanaeth rhagorol, gan gynnwys delio ag unrhyw gwynion yn fewnol • Er bod Llywodraeth y DU yn buddsoddi mewn band eang ffeibr llawn, bydd ardaloedd o hyd lle mae'n rhy ddrud i'w osod a gall mynediad di-wifr sefydlog yn aml ddarparu datrysiaid ar gyfer cael cysylltiad band eang i'r filltir olaf. • Fel cwmni bach lleol, mae'n wynebu llawer o heriau, gan gynnwys dod o hyd i gwsmeriaid newydd. Fodd bynnag, mae gwelliannau mewn offer a thechnoleg dros y blynyddoedd yn darparu cyfleoedd ar gyfer twf pellach. 	
<p>Yr wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr</p> <p>15. NODWYD y cynnwys.</p>	
<p>Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod</p> <p>16. Mae'r ymgynghoriadau ar y gweill y dylai'r Pwyllgor ystyried ymateb iddo yn cynnwys:</p> <p>Safle BBC Sounds yn y Farchnad;</p> <p>Adolygu'r rhyngweithio rhwng Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC a BBC Studios;</p> <p>Dull Ofcom o asesu cydymffurfiaeth â rheolau niwtraliaeth y rhynggrwyd.</p>	
<p>Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol</p> <p>Unrhyw fater arall</p> <p>Dychwelodd y Cadeirydd at yr ymatebion i gwestiynau a godwyd gan un o'r aelodau yn eitem 8 (Datblygiadau Diweddar Cymru). Erbyn hynny, roedd yr aelodau wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Mesur Cyfryngau gan y Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus. Rhoddwyd rhagor o fanylion i'r aelodau am y mater yn ymwneud ag ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Awgrymwyd y dylai'r Aelodau gadw cofnod cyfredol o'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i gwblhau.</p> <p>Cytunodd yr aelodau i ymweld â phencadlys BBC Cymru Wales yn y Sgwâr Canolog.</p> <p>Cytunwyd ar ddyddiadau'r cyfarfodydd sydd ar y gweill ar gyfer 2022: 22 Mawrth; 23 Mehefin; 13 Medi; a 29 Tachwedd</p>	EW

Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Mercher 24^{ain} Tachwedd 2021

--